

Bwyd a Chi 2

Bwyd a Chi 2 yw ein harolwg blaenllaw sy'n mesur y wybodaeth, yr agweddau a'r ymddygiad a nodwyd gan bobl o ran diogelwch bwyd ac ymddygiadau eraill sy'n ymwneud â bwyd.

Os ydych wedi cael llythyr yn eich gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg Bwyd a Chi 2, ewch i [wefan yr arolwg](#).

Beth yw Bwyd a Chi 2?

Ystadegyn swyddogol yw Bwyd a Chi 2 gydag oedolion (16 oed neu h?n) yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r arolwg yn mesur y wybodaeth, yr agweddau a'r ymddygiad a nodwyd gan bobl o ran diogelwch bwyd ac ymddygiadau eraill sy'n ymwneud â bwyd.

Cynhelir yr ymchwil bob 6 mis gan ddefnyddio dull 'gwthio i'r we' (push-to-web). Mae hyn yn golygu bod yr ymatebwyr, i ddechrau, yn cael llythyr drwy'r post yn eu gwahodd i gymryd rhan mewn arolwg ar-lein. Maent hefyd yn gallu llenwi fersiwn bapur o'r holiadur.

Dechreuodd y cylch gasglu data gyntaf ym mis Gorffennaf 2020.

Y pynciau sy'n cael eu cynnwys yn arolwg Bwyd a Chi 2

Mae Bwyd a Chi 2 yn ymdrin â phynciau fel diogelwch bwyd yn y cartref, siopa bwyd, bwyta allan, diogeledd bwyd (*food security*), pryderon am fwyd, ac ymddiriedaeth yn yr ASB a'r gadwyn cyflenwi bwyd.

Gofynnir rhai cwestiynau ym mhob cylch o'r arolwg, tra bydd cwestiynau eraill yn codi'n llai aml, er enghraifft bob blwyddyn neu bob dwy flynedd.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi rhestr o'r pynciau a drafodwyd a phryd y cyhoeddwyd canfyddiadau ar bob pwnc ddiwethaf:

Modiwl	Pynciau dan sylw	Amllder	Y data diweddaraf sydd ar gael
Amdanoch chi a'ch cartref	<ul style="list-style-type: none">Dewisiadau deietegol a gorsensitifwydd i fwyd (amlder a diagnosis)Cyfrifoldebau siopa a choginioGwybodaeth am gartrefi a demograffeg	6 mis	Bwyd a Chi 2 – Cylch 8
Bwyd y gallwch ymddiried ynddo	<ul style="list-style-type: none">Ymwybyddiaeth o'r ASB ac ymddiriedaeth ynddiHyder o ran diogelwch a dilysrwydd bwydHyder yn y gadwyn cyflenwi bwyd	6 mis	Bwyd a Chi 2 – Cylch 8
Pryderon am fwyd	<ul style="list-style-type: none">Pryderon am fwyd	6 mis	Bwyd a Chi 2 – Cylch 8

Modiwl	Pynciau dan sylw	Amllder	Y data diweddaraf sydd ar gael
Diogeledd bwyd	<ul style="list-style-type: none"> Nifer yr achosion o ddiffyg diogeledd bwyd (modiwl diogelwch bwyd USDA) Newidiadau y mae pobl wedi'u gwneud am resymau ariannol 	6 mis	Bwyd a Chi 2 – Cylch 8
Siopa am fwyd	<ul style="list-style-type: none"> Ymddygiadau wrth brynu bwyd Hyder mewn gwybodaeth am alergenau Ymwybyddiaeth a chamau a gymerwyd mewn ymateb i rybuddion bwyd ac alergeddau Agweddau tuag at les anifelliaid, tarddiad ac effaith amgylcheddol bwyd 	12 mis	Bwyd a Chi 2 – Cylch 7
Bwyta allan a'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB)	<ul style="list-style-type: none"> Agweddau ac ymddygiadau yn ymwneud â bwyta allan ac archebu bwyd o siopau tecawé Ymwybyddiaeth a defnydd o'r CSHB 	12 mis	Bwyd a Chi 2 – Cylch 8
Bwyta gartref (craidd)	<ul style="list-style-type: none"> Gwybodaeth am ddiogelwch bwyd ac ymddygiadau yn y cartref (cwestiynau craidd) 	12 mis	Bwyd a Chi 2 – Cylch 8
Bwyta gartref (golwg fanwl)	<ul style="list-style-type: none"> Gwybodaeth am ddiogelwch bwyd ac ymddygiadau yn y cartref 	24 mis	Bwyd a Chi 2 – Cylch 6
Gorsensitifrwydd i fwyd (golwg fanwl)	<ul style="list-style-type: none"> Cwestiynau manwl ar orsensitifrwydd i fwyd 	Ad-hoc	Bwyd a Chi 2 – Cylch 6
Bwyta'n iach (Gogledd Iwerddon)	<ul style="list-style-type: none"> Bwyta'n iach gan gynnwys gwybodaeth (er enghraifft canllawiau'r llywodraeth), agweddau ac ymddygiad 	24 mis	Bwyd a Chi 2 – Cylch 7
Materion sy'n dod i'r amlwg (golwg fanwl)	<ul style="list-style-type: none"> Deietau cynaliadwy ac ymddygiadau wrth brynu Arferion bwyta dewisiadau amgen i gig a dealltwriaeth o'r rhain 	24 mis	Bwyd a Chi 2 – Cylch 8

Adroddiadau Ystadegau Swyddogol Bwyd a Chi 2

Mae'r prif adroddiad, yr adroddiad technegol a'r data ar gyfer pob cylch i'w gweld yn y dolenni canlynol:

- [Bwyd a Chi 2: Cylch 8](#)
- [Bwyd a Chi 2: Cylch 7](#)
- [Bwyd a Chi 2: Cylch 6](#)
- [Bwyd a Chi 2: Cylch 5](#)
- [Bwyd a Chi 2: Cylch 4](#)
- [Bwyd a Chi 2: Cylch 3](#)
- [Bwyd a Chi 2: Cylch 2](#)
- [Bwyd a Chi 2: Cylch 1](#)

Adroddiadau dadansoddi eilaidd

Tueddiadau Bwyd a Chi 2

- [Bwyd a Chi 2: Tueddiadau 2020-2023](#)

Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

- [Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd \(CSHB\) Bwyd a Chi 2: Cylch 8](#)
- [Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd \(CSHB\) Bwyd a Chi 2: Cylch 2](#)
- [Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd \(CSHB\) Bwyd a Chi 2: Cylch 4](#)
- [Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd \(CSHB\) Bwyd a Chi 2: Cylch 6](#)

Dadansoddiad eilaidd gwlad-benodol: Cymru a Gogledd Iwerddon

- [Diogeledd Bwyd yng Ngogledd Iwerddon Cylch 1 \(PDF\)](#)
- [Bwyd a Chi 2: Prif Ganfyddiadau Cylchoedd 1-2 yn benodol i Gymru a Gogledd Iwerddon](#)
- [Bwyd a Chi 2: Prif Ganfyddiadau Cylchoedd 3-4 Gogledd Iwerddon](#)
- [Bwyd a Chi 2: Prif Ganfyddiadau Cylchoedd 5-6 Gogledd Iwerddon](#)
- [Bwyd a Chi 2: Prif Ganfyddiadau Cylchoedd 7-8 Gogledd Iwerddon](#)

Tablau data, setiau data a chanllaw defnyddio data

[Arolwg Bwyd a Chi 2](#)

Data SPSS a deunyddiadau'r arolwg (i'w cael trwy Gwasanaeth Data y DU)

[Bwyd a Chi 2: Cylchoedd 1 i 6, 2020 i 2023](#)

Cyhoeddiadau yn y dyfodol

Adroddiad	Dyddiad
Bwyd a Chi 2, Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd: Cylch 8	Hydref 2024
Bwyd a Chi 2: Tueddiadau 2020-2024	Gaeaf 2024

Ymchwil gysylltiedig

- [Tracio Mewnwelediadau Defnyddwyr: Yr Asiantaeth Safonau Bwyd](#)

Manylion cyswllt

Gallwch gysylltu â thîm Bwyd a Chi 2 gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol:
foodandyou@food.gov.uk